Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pips Lodge**

**Aberdaugleddau**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Pips Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Silver Springs Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Gorffennaf 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn derbyn cymorth cyson gan dîm gofal gwybodus a phrofiadol. Mae Pip's Lodge yn wasanaeth a reolir yn dda ac ategir hyn gan drefniadau llywodraethu da. Mae'r cyfathrebu'n gryf ac mae gweithwyr gofal yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr ac yn cael eu goruchwylio'n strwythuredig yn rheolaidd. Yn ystod y broses o recriwtio staff maent yn cefnogi arfer diogel ac mae gan staff gofal fynediad da at hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ddigon medrus i gyflawni eu rolau.

Mae'r bobl yn derbyn cymorth ac anogaeth i ddilyn ffordd o fyw egnïol a gwneud dewisiadau dyddiol. Mae'r staff yn trin pobl ag urddas, parch a charedigrwydd ac mae perthnasau'n teimlo'n gyfforddus bod y gofal a ddarperir o safon dda. Mae eu cynlluniau personol yn darparu gwybodaeth glir ac yn cyfeirio gweithwyr gofal at y ffordd orau o gefnogi'r unigolion. Mae'r broses o reoli meddyginiaeth yn effeithiol ac mae anghenion iechyd yn cael eu trin yn brydlon.

Mae'r gwasanaeth yn darparu digon o staff i ddiwallu anghenion unigol pobl a'u cefnogi i fyw bywydau bodlon bob dydd. Hyfforddir y staff gofal i lefel dda, sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt i ddarparu'r gofal gorau posibl. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael ac yn hygyrch i'r bobl. Mae systemau sicrhau ansawdd clir ar waith i hyrwyddo'r gwaith o redeg y cartref redeg yn ddiogel a chynnal gofal o safon dda.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i gael cymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio technegau cyfathrebu gwahanol i helpu pobl i ddeall gwybodaeth a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau. Gwelsom weithwyr gofal yn cynorthwyo'r bobl i fod yn egnïol a gwneud yr hyn maent yn eu mwynhau. Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori â phobl, neu eu cynrychiolwyr, ynghylch sut y maent am gael eu cefnogi. Gwelsom fod arferion unigol y bobl yn cael eu nodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r cofnodion gofal yn nodi manylion am gefndiroedd y bobl, y mae gweithwyr gofal yn gyfarwydd iawn â nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn holi pobl am eu profiadau yn ystod archwiliadau ansawdd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion cyfredol. Mae'r adolygiadau'n ystyried newidiadau yn y ddarpariaeth o ofal pobl a thystiolaeth bod pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys. Atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae rheoli meddyginiaeth yn dda yn sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Mae eu harferion dyddiol yn ystyriol o hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diet da. Mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau bod y bobl yn cadw'n brysur drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau ac unigolion allweddol mor aml ag y dymunant.

Mae pobl yn byw mewn llety sy'n addas i'w hanghenion penodol. Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus. Mae cymhorthion symudedd wedi eu gosod lle bo angen ac mae digon o le yn yr ystafelloedd i ganiatáu eu defnyddio'n ddiogel. Mae gan y bobl mynediad i ardaloedd cymunedol dan do ac awyr agored. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i adael y cartref am achlysuron yn rheolaidd. Roedd yr holl ystafelloedd a welwyd, rhai cymunedol a phreifat, yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac wedi'u dodrefnu'n briodol. Cynhelir gwiriadau amgylcheddol a diogelwch rheolaidd.

Mae mesurau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi priodol i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn addas ar gyfer gwaith gofal. Dengys y cofnodion ei bod yn ofynnol i staff gwblhau hyfforddiant diogelu yn ystod eu rhaglen sefydlu. Mae gan y gwasanaeth bolisi diogelu ar waith. Mae'r bobl yn derbyn gofal gan niferoedd priodol o staff sydd wedi derbyn ystod eang o hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth yn dilyn Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) sydd yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau y mae'r bobl yn ddarostyngedig iddynt yn gyfreithlon.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaeth dda yn gyson. Mae'r staff yn profi cyfathrebu a chefnogaeth dda gan uwch aelodau'r tîm pan fo angen. Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi staff trwy oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r cartref ac mae ganddo drefniadau monitro ansawdd effeithiol ar waith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl sy'n byw yn Pip's Lodge yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom niferoedd digonol o staff gofal yn gweithio yn y cartref ac mae rota'r staff yn adlewyrchu hyn. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd iawn ag anghenion pobl ac yn deall eu hoffterau, eu cas bethau a'r hyn maent yn eu ffafrio. Cefnogir hyn gan ddogfennaeth, gan gynnwys proffiliau personol a gwybodaeth gefndirol. Gwelsom weithwyr gofal yn ymgysylltu'n dda â phobl trwy sgwrsio a chymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol. Roeddem yn gallu gweld bod ysgogiad a meddiannu amser pobl mewn ffordd ystyrlon i bob unigolyn yn flaenoriaeth. Gall y gweithwyr gofal dynnu sylw neu leihau pryderon trwy dechnegau sensitif a geir o adnabod pobl yn dda.

Mae'r bobl yn profi gofal a chymorth o safon dda. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o bwy yw'r person. Mae asesiadau cychwynnol a chynlluniau personol yn cynnwys mewnbwn gan weithwyr proffesiynol, pobl a/neu eu cynrychiolwyr. Adolygir cynlluniau personol yn aml i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol a bod pobl a'u cynrychiolwyr yn amlwg yn cymryd rhan. Mae canlyniadau a nodau unigol y bobl wedi'u nodi'n glir ac mae'r gwasanaeth yn rhoi pwyslais ar wneud y mwyaf o gryfderau'r bobl a chyflawni canlyniadau cadarnhaol. Nodir unrhyw beryglon a nodir ynghyd â dulliau o leihau'r risgiau hyn iddynt hwy eu hunain neu i eraill. Gwelsom dystiolaeth gref o fewnbwn gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol arbenigol. Eir i'r afael ag unrhyw newidiadau iechyd yn brydlon.

Mae polisïau, gweithdrefnau a'r defnydd o arferion hylan sy'n lleihau'r risg o haint ar waith. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o reoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE). Mae'r gweithwyr gofal yn gwisgo PPE priodol ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Maent yn cynnal safonau hylendid priodol ac mae amserlenni glanhau ar waith sy'n cael eu goruchwylio gan y rheolwr. Mae gan y cartref gyflenwad digonol o PPE sydd ar gael yn hawdd i bob gweithiwr gofal.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Ceir polisi a gweithdrefnau meddyginiaeth briodol a chynhelir archwiliadau rheolaidd. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi i weinyddu meddyginiaeth ac mae gwiriadau cymhwysedd staff yn sicrhau bod pobl yn derbyn y feddyginiaeth gywir ac mae arfer yn parhau i fod yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn groesawgar, yn lân ac yn gyfforddus. Gwelsom fod y cynllun cartref a’r dodrefn yn yr ystafelloedd preifat a chymunedol yn briodol ar gyfer anghenion unigol pobl. Gall pobl gael mynediad i'r ardd eang, sy'n breifat, gwastad a chaeedig. Mae'r gegin a'r ardaloedd bwyta yn gartrefol eu natur, yn cynnwys offer da ac yn cynnig ardal naturiol i bobl gyfarfod a chymdeithasu os dymunant. Mae digon o le yn y cartref i bobl â phroblemau symudedd allu symud o gwmpas yn ddiogel. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr, yn olau ac yn agored ac yn adlewyrchu personoliaeth y preswylydd.

Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Mae'r trefniadau iechyd a diogelwch yn dda ac mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r trefniadau ymweld yn gadarn ac mae ymwelwyr awdurdodedig yn cael eu hannog yn weithredol. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch cyn mynychu'r cartref, a gofynnir iddynt arwyddo llyfr ymwelwyr. Mae trefniadau cynnal a chadw da ar waith. Cedwir amserlenni glanhau ac roedd pob rhan o'r cartref yn lân, yn rhydd o annibendod diangen a heb arogl.

Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPs) pe bai achos y byddai angen gwagio'r adeilad. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant diogelwch tân. Caiff sylweddau glanhau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n briodol. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod cyflenwadau o lefel ddigonol. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan nifer ddigonol o staff gofal. Gwelsom fod gan y staff amser i'w dreulio'n siarad â phobl mewn modd tawel a di-frys. Dywedodd y staff gofal y siaradwyd â nhw i gyd eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i'w dreulio gyda phobl ac nad oeddent yn teimlo bod yn rhaid iddynt ruthro i ddarparu gofal. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi eu cydberthnasau cadarnhaol â gweithwyr gofal. Gwelsom weithwyr gofal yn gwrando'n astud ar bobl; roeddent yn cydnabod yr hyn oedd yn bwysig iddynt ac yn trafod sut y gallent gyflawni eu nodau dyddiol. Dywedodd y bobl wrthym yn gyson eu bod yn hapus â'r cymorth a gânt.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel i'r wasanaeth. Roedd ffeiliau'r staff yr edrychwyd arnynt yn cynnwys tystiolaeth y gofynnwyd am eirdaon priodol a bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal cyn i'r gyflogaeth ddechrau. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn yr hyfforddiant priodol a chefnogaeth i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Dengys cofnodion hyfforddiant, a chadarnhawyd yn ystod trafodaethau â'r gweithwyr gofal, fod staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n berthnasol i'w rolau ac anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys diogelu, rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, cymorth ymddygiad cadarnhaol ac ymwybyddiaeth o epilepsi. Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd sydd wedi'i dogfennu'n dda ac sy'n caniatáu i staff fyfyrio ar eu cyflawniadau personol, eu nodau a'u dyheadau, eu hanghenion hyfforddi a phrofiadau'r bobl y maent yn eu cynorthwyo. Caiff arfarniadau eu cynnal bob blwyddyn a chaiff gweithwyr gofal eu annog i gymryd rhan yn llawn yn y rhain. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym bod ganddynt mynediad at gymorth anffurfiol ar unrhyw adeg, gan gydweithwyr, y rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Dywedwyd wrthym gan weithwyr gofal eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac yn cael eu cefnogi er mwyn gallu ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Mae morâl y staff yn y cartref i'w weld yn dda, dywedodd y staff gofal wrthym yn gyson eu bod yn mwynhau eu gwaith.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaeth yn hawdd. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau cyfredol. Mae'n ofynnol i weithwyr gofal ddarllen y rhain a chânt wybod am unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'i Ddatganiad o Ddiben.

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith ac mae safonau yn y gwasanaeth yn cael eu monitro'n agos gan y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol. Dengys y cofnodion fod yr Unigolyn Cyfrifol yn asesu safonau gwasanaeth ac yn ystyried adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol ac adolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol iawn yn y cartref ac yn adnabod y bobl a'r gweithwyr gofal yn dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2023